# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru (MAE AGC) a Llais

Ar gyfer monitro a chefnogi gwelliant mewn gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru o dan Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mawrth 2025

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

## Cynnwys


**Hanes a chymeradwyo fersiwn** ........ 3
**Cyflwyniad** ........ 4
**Egwyddorion cydweithredu** ........ 6
**Blaenoriaethau a Meysydd Gwaith ar y Cyd** ........ 7
**Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau** ........ 9
**Llywodraethu** ........ 10
**Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'r broses o'i adolygu** ........ 11
**Atodiad A – Gweithio mewn partneriaeth** ........ 12
- **Ymgysylltiad parhaus** ........ 12
- **Cyfarfod dwyochrog chwarterol** ........ 12
- **Gweithdai ar y cyd** ........ 12
- **Adolygiadau cenedlaethol a lleol** ........ 12

**Atodiad B – Manylion Cyswllt** ........ 13

## Hanes a chymeradwyo fersiwn

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 0.1 |
| **Dyddiad creu** | 240624 |
| **Awduron** | AGC: [Margaret Rooney]<br>Llais: Angela Mutlow |
| **Dyddiad y cytunwyd arno** | Rhagfyr 2024 |
| **Dyddiad adolygu** | Rhagfyr 2025 |

## Cyflwyniad

1. Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw gosod fframwaith i gefnogi'r gydberthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Llais.

2. Mae'r gydberthynas waith hon yn rhan o waith cynnal a chadw system reoleiddio a goruchwylio effeithiol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i bobl sy'n byw yng Nghymru, sy'n hyrwyddo gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel.

3. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ond yn ymwneud â rheoleiddio, arolygu a goruchwylio gofal cymdeithasol i bobl sy'n byw yng Nghymru. Nid yw'n cymryd lle cyfrifoldebau a swyddogaethau statudol Arolygiaeth Gofal Cymru a Llais ac nid yw'n creu hawliau na rhwymedigaethau cyfreithiol gyfrwymol; ei ddiben yw diffinio'r cydgytundeb rhwng y ddau sefydliad a nodi dull gweithredu cyffredin.

4. Fel rhan o'r gweithgareddau a wnaed o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gall cytundebau eraill (er enghraifft, cytundebau rhannu gwybodaeth neu brotocolau cydweithio) gael eu sefydlu. Bydd y cytundebau hynny yn bodoli ar wahân i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

## Rolau a Chyfrifoldebau

### Arolygiaeth Gofal Cymru

5. AGC yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae'n cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru. Mae AGC:

- yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru er mwyn darparu sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau
- yn penderfynu pwy all ddarparu gwasanaethau
- yn arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan gefnogi gwelliannau

- yn cynnal adolygiadau cenedlaethol o wasanaethau gofal cymdeithasol
- yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau yn bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol
- yn ymateb i bryderon a leisiwyd am wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant

6. Mae AGC yn cynnal swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar gyfer:

- gwasanaethau cartrefi gofal
- gwasanaethau llety diogel
- gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- gwasanaethau mabwysiadu
- gwasanaethau maethu
- gwasanaethau lleoli oedolion
- gwasanaethau eirioli
- gwasanaethau cymorth cartref

7. Mae AGC hefyd yn rheoleiddio ac yn arolygu'r canlynol o dan ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010:

- gwarchodwyr plant
- gofal Dydd (gan gynnwys Chwarae) i blant o dan ddeuddeg oed

8. Mae gan AGC hefyd bwerau i arolygu ysgolion annibynnol, gan roi ystyriaeth i les y plant sy'n cael eu lletya yn yr ysgolion hynny (rhan 12 o Ddeddf Plant 1989). Gall hefyd ystyried a ddylid caniatáu hepgoriad o ddatgymhwyso rhag parhau neu fod yn rhan o gartrefi plant o dan ran 8 o'r Ddeddf.

9. Mae AGC yn adolygu gweithrediad adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn gosod darpariaethau yn adran 149 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn i AGC adolygu'r gwaith o wireddu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

**Llais**

10. Mae gan Llais 3 maes gweithgarwch craidd:

- gweithio gyda phobl, cynrychiolwyr a grwpiau cymunedol ym mhob rhan o Gymru i glywed safbwyntiau a phrofiadau pobl leol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- rhannu'r hyn y mae'n ei glywed â'r GIG, awdurdodau lleol a gwneuthurwyr penderfyniadau eraill i wneud yn siŵr bod safbwyntiau a phrofiadau pobl yn gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bawb
- pan fydd pethau'n mynd o chwith, bydd Llais yn cefnogi pobl i gwyno

  * Wrth ddechrau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, mae Llais yn cydnabod y gall fod angen cymeradwyaeth y Bwrdd ar ei gyfrifoldebau llywodraethu ac atebolrwydd i Fwrdd Llais ac unrhyw waith y tu allan i'r Cynlluniau Strategol presennol.

## Egwyddorion cydweithredu

11. Mae AGC a Llais yn cydnabod eu cyfrifoldebau a swyddogaethau statudol ac anstatudol a byddant yn ystyried y rhain wrth weithio gyda'i gilydd.  Mae ein partneriaeth yn ystyried yr argymhellion o fewn nifer o ymholiadau ac adolygiadau diweddar, yn enwedig yr angen i wneud y gorau i gydweithio i wella profiad pobl, eu diogelwch a'r ffordd y caiff iechyd a gofal cymdeithasol eu darparu.

12. Wrth roi'r cytundeb hwn ar waith, bwriad AGC a Llais yw y bydd yr egwyddorion canlynol yn nodweddu eu cydberthynas waith:
    - yr angen i wneud penderfyniadau sy'n hyrwyddo gofal a chymorth o ansawdd uchel i bobl, sy'n diogelu ac yn hyrwyddo annibyniaeth, iechyd a llesiant, diogelwch a lles pobl;
    - didwylledd llwyr rhwng y ddau sefydliad o ran pryd yr ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol neu'n briodol;
    - parch at annibyniaeth ei gilydd;

- yr angen i ddefnyddio adnoddau a deallusrwydd yn effeithiol ac yn effeithlon drwy gydlynu a rhannu gwybodaeth yn briodol;
- yr angen i gynnal hyder y cyhoedd yn y ddau sefydliad; ac
- ymrwymiad i fynd i'r afael ag unrhyw orgyffwrdd neu fylchau dynodedig yn y fframwaith a chyfrifoldebau rheoliadol.

13. Nid yw AGC yn ymchwilio i gwynion defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd. Pan fydd pobl yn cysylltu ag AGC ynghylch cwynion, bydd AGC yn eu gwneud yn ymwybodol o'r cymorth y gallant ei gael drwy Llais.

14. Pan ddaw pryder penodol ynghylch diogelwch ac ansawdd gwasanaeth gofal cymdeithasol i'r amlwg, bydd cyfarwyddwr rhanbarthol perthnasol Llais yn rhoi gwybod amdano i AGC drwy broses codi pryderon gan ddefnyddio'r dolenni priodol ar wefan AGC (Codi pryder am wasanaethau gofal | Arolygiaeth Gofal Cymru). Bydd AGC yn penderfynu ar y cam gweithredu mwyaf priodol ac yn rhoi gwybod i swyddfa berthnasol Llais am ganlyniadau'r ystyriaeth hon

15. **Os bydd pryderon y gallai rhywun fod yn wynebu risg o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod**, bydd Llais yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn yr ardal berthnasol i roi gwybod am bryder mewn perthynas â diogelu.

## Blaenoriaethau a Meysydd Gwaith ar y Cyd

### Cyfnewid Gwybodaeth

16. Yn aml iawn, bydd cydweithredu rhwng AGC a Llais yn gofyn am gyfnewid gwybodaeth. Bydd disgwyl cyfnewid gwybodaeth, er nad yn gyfyngedig, i achosion lle mae:
    - naill ai AGC neu Llais yn nodi pryderon am iechyd a llesiant y cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas â phrofiad y defnyddiwr gwasanaeth; a/neu
    - lle y byddai datrysiad i bryder yn elwa ar ymateb cydlynol gan sawl sefydliad.

17. Yn yr achosion hynny, bydd pob achos o gyfnewid gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn gymesur ac yn cael ei rannu'n gyfrinachol â'r cyswllt a enwir yn y sefydliad arall cyn gynted â phosibl.

18. Mae'r rhyngwynebau agosaf rhwng gwaith AGC a Llais yn swyddogaethau ymgysylltiad a chynrychiolaeth barhaus Llais, gan gynnwys ymweld. Bydd dyluniad ein rhaglenni gwaith yn cael ei lywio drwy rannu a chroesgyfeirio gwybodaeth. Cefnogir y gwaith rhannu a chroesgyfeirio hwn gan y trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn Atodiad A.

19. Rydym yn ymrwymedig i rannu gwybodaeth am ffocws ein gwaith bob blwyddyn ac yn ystyried a oes cyfleoedd i wneud y gorau o'r budd i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd drwy:
    - godi ymwybyddiaeth o weithgareddau ei gilydd
    - addasu amseru ein priod raglenni lle mae hyn yn rhoi cyfle i fwydo i mewn i waith y llall neu i wneud gwaith ar y cyd.
    - addasu cynnwys ein priod raglenni er mwyn dileu dyblygu neu er mwyn cydlynu mewn modd clir.

20. Yn ogystal â'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn Atodiad A, mae nifer o systemau yn bodoli lle y caiff hyn ei gyflawni trwyddo:
    - Mae rhaglenni gweithgarwch AGC a Llais wedi'u cyhoeddi yn eu cynlluniau strategol a/neu flynyddol. Caiff pob corff ei wahodd i fod yn aelodau o unrhyw grwpiau cyfeirio rhanddeiliaid thematig fel y bo'n briodol. Mae hyn yn rhoi eglurder ar gynnwys ac amseru ac yn cynnig fforwm i nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio trwyddo.
    - Caiff y ddau sefydliad eu gwahodd i fod yn aelodau sefydlog o grwpiau cyfeirio rhanddeiliaid prthnasol y llall (lle maent ar waith). Gallant ddefnyddio'r grwpiau hyn i rannu eu rhaglenni gwaith eu hunain â rhanddeiliaid.
    - Mae AGC a Llais yn darparu dolenni i'w gilydd o'u gwefannau er mwyn helpu'r cyhoedd i gael y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

- Mae AGC a Llais yn defnyddio'u systemau cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o ymgyngoriadau a chyhoeddiadau perthnasol gan y corff arall.

21. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth a osodwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac unrhyw brotocol cydweithio y gellir ei ddatblygu yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a holl ddeddfwriaeth berthnasol AGC a Llais sy'n ymwneud â'r materion hyn, a Chodau Ymarfer priodol, fframweithiau neu bolisïau eraill yn ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol a materion o ran gwybodaeth.

22. Mae AGC a Llais yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd un sefydliad yn cael cais am wybodaeth sydd wedi dod o'r llall, bydd y sefydliad sy'n cael y cais yn ei drafod â'r llall cyn ymateb.

## Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau

23. Bydd AGC a Llais yn rhoi rhybudd digonol, a digon o wybodaeth, am unrhyw gyhoeddiadau arfaethedig i'r cyhoedd ynglŷn â materion perthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cynigion a chyhoeddiadau drafft. Caiff trafodaeth o ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ei chynnwys yn yr ymgysylltiad parhaus a ddisgrifir yn Atodiad A.

24. Ceir rhai dulliau penodol ar gyfer trafod cyfathrebiadau allanol:
    - Rhannu amlinelliad cynnar a drafftiau terfynol lle mae adroddiadau unigol yn ystyried neu'n cyfeirio'n benodol at waith ei gilydd.
    - Sicrhau bod adroddiadau o adolygiadau cenedlaethol a thematig terfynol ar gael cyn cyhoeddi o dan drefniadau ‘dan waharddiad’ y cytunwyd arnynt.
    - Annog cyfeiriadau penodol at waith ei gilydd ac adroddiadau cyhoeddedig o fewn cyfathrebiadau rheolaidd pob sefydliad, e.e. cylchlythyrau ac ar ein priod wefannau.

- Cael y cyfle i roi sylwadau ar gywirdeb ffeithiol datganiadau i'r wasg, adroddiadau, tystiolaeth i bwyllgorau Senedd Cymru ac ati, lle mae'r rhain yn cyfeirio'n benodol ar waith y sefydliad arall.
- Cyfeirio at waith ei gilydd ac unrhyw waith ar y cyd, os yn berthnasol, wrth siarad mewn cynadleddau neu gyfarfodydd cyhoeddus.

25. Mae AGC a Llais yn ymrwymo i gydweithio, lle y bo'n briodol, er mwyn llunio datganiadau neu ohebiaeth ar y cyd sy'n tynnu sylw at drefniadau cydweithio neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad.

26. Bydd AGC a Llais yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi ac ni fyddant yn gweithredu mewn unrhyw ffordd a fyddai'n achosi i gynnwys y dogfennau hyn gael eu cyhoeddi cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

## Llywodraethu

27. Caiff effeithiolrwydd y gydberthynas waith rhwng AGC a Llais ei gefnogi drwy gyswllt rheolaidd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Disgrifir y cyswllt hwn ac unrhyw waith partneriaeth yn Atodiad A. Dengys manylion cyswllt cysylltiadau lefel weithredol perthnasol ym mhob sefydliad yn Atodiad B.

28. Fel arfer, caiff unrhyw anghytundeb rhwng AGC a Llais ei ddatrys ar lefel weithredol. Os na fydd hyn yn bosibl, bydd yn rhaid ei ddwyn i sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, a all ei uwchgyfeirio wedyn, fel y bo'n briodol, yn y ddau sefydliad er mwyn iddo gael ei ddatrys i foddhad y naill ochr a'r llall. Dylai'r ddau sefydliad geisio datrys anghytundebau rhwng pobl o fewn cyfnod rhesymol o amser.

## Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'r broses o'i adolygu

29. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad B. Byddant yn cysylltu â'i gilydd yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gyfredol, nodi unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg ac ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi yn y gydberthynas waith rhwng y ddau sefydliad.

30. Nid oes terfyn amser i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a bydd yn parhau i fod mewn grym oni fydd yr egwyddorion a ddisgrifir yn gorfod cael eu diwygio neu'n peidio â bod yn berthnasol. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei adolygu bob blwyddyn gan y rheolwyr a nodir yn Atodiad B, ond gellir ei adolygu hefyd fel mater o frys ar unrhyw adeg ar gais y naill sefydliad neu'r llall.

| **Llofnodwyd** | **Llofnodwyd** |
|---|---|
| **Gillian Baranski** | **Alyson Thomas** |
| Prif Arolygydd | Prif Weithredwr |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | Llais |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

## Atodiad A – Gweithio mewn partneriaeth

Er bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi egwyddor arweiniol y wybodaeth a rhannu digwyddiadau, ceir rhai gweithgareddau penodol hefyd a fydd yn hwyluso'r bartneriaeth rhwng AGC a Llais:

**Ymgysylltiad parhaus**

Mae rheolwyr a enwir AGC a Chyfarwyddwyr Rhanbarthol Llais yn cyfarfod yn unigol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn rhannu risgiau a materion y nodwyd eu bod yn dod i'r amlwg drwy ein gwaith. Yn y cyfarfodydd hyn, bydd Llais yn rhannu dadansoddiad o'r cwynion a dderbyniwyd gydag AGC er mwyn llywio'r broses o ddynodi clystyrau a phatrymau posibl.

**Cyfarfod dwyochrog chwarterol**

Bydd y Prif Weithredwyr yn cyfarfod bob chwarter. Pwrpas hyn fydd cael trafodaeth strategol ar faterion a chynlluniau parhaus ac edrych ymlaen ac adolygu trefniant cydweithio.

Nod y cyfarfodydd hyn fydd rhannu themâu cenedlaethol a chynlluniau gweithredol yn fras cyn dechrau'r flwyddyn a rhoi diweddariadau cynnydd. Yna caiff pob un ei wahodd i hysbysu cwmpas y gweithgareddau thematig cenedlaethol.

**Gweithdai ar y cyd**

Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn galluogi AGC a Llais i gynnal gweithdai (fel y bo angen) i gyflwyno cynlluniau gwaith parhaus, canfyddiadau diweddar a gwaith ar y cyd parhaus. Mae'r rhain yn gweithredu fel cyfle i bob rheolwr AGC a Llais perthnasol rwydweithio a thrafod gwaith parhaus ar lefel fwy gweithredol na chyfarfodydd y Prif Weithredwr.

Bydd yr agenda ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn amrywio drwy gydol y flwyddyn yn dibynnu ar waith ar y cyd parhaus a chylchoedd cynllunio gweithredol. Fodd bynnag, gall y gweithdai hyn gynnwys o leiaf:

- ddiweddariad ar gynllunio a gweithgareddau sefydliadol
- diweddariad ar waith a gwblhawyd hyd yma yn y flwyddyn a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg
- unrhyw bryderon neu themâu sydd wedi codi yn ystod y tri mis diwethaf
- camau a gymerwyd yn erbyn y pryderon a'r themâu a godwyd yn y gweithdy diwethaf
- diweddariad ar waith adolygu cenedlaethol a lleol parhaus

**Adolygiadau cenedlaethol a lleol**

Mae AGC a Llais yn cynnal cyfres o adolygiadau drwy gydol y flwyddyn sy'n canolbwyntio ar bynciau a materion penodol y tynnwyd sylw atynt drwy fonitro risgiau a materion. Gall yr adolygiadau hyn fod o ddiddordeb ar y cyd i'r ddau sefydliad. Lle

mae hyn yn digwydd, bydd Arweinwyr Prosiect a enwir yn cyfarfod fel y bo'n briodol i drafod cynlluniau adolygu, dulliau gweithredu ac allbynnau.

## Atodiad B – Manylion Cyswllt

| | |
|---|---|
| **Arolygiaeth Gofal Cymru**<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ<br><br>Rhif ffôn:  0300 7900 126 | **Llais**<br>33-35 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd<br>CF11 9HB<br><br>Rhif ffôn: 0300 062 8163 |

Bydd unigolion cyswllt a enwir rhwng AGC a Llais fel a ganlyn:

| **Prif Weithredwyr** | |
|---|---|
| **Gillian Baranski** Prif Arolygydd<br>Gillian.Baranski@gov.wales | **Alyson Thomas**<br>Prif Weithredwr<br>alyson.thomas@llaiscymru.org |

| **Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rheolwyr** | |
|---|---|
| **Margaret Rooney**<br>Dirprwy Brif Arolygydd<br>Margaret.rooney@gov.wales<br><br>Rhif ffôn:  0300 7900 126 | **Ben Eaton**<br>Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth ac Ymgysylltu Sefydliadol<br>ben.eaton@llaiscymru.org<br><br>Rhif ffôn: 02920 235558 |

| **Blwch Post Pryderon** | |
|---|---|
| https://www.arolygiaethgofal.cymru/cysylltwch-ni/codi-pryder<br>Rhif ffôn:  0300 7900 126 | concerns@llaiscymru.org<br><br>Rhif ffôn: 02920 235558 |